Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Ymgynhoriad Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) arfaethedig i lamhidyddion yr harbwr ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol (AGA) arfaethedig i adar môr yng Nghymru

## Rhai cwestiynau ac atebion

**Fersiwn 1: 19 Ionawr 2016**

*Noder os gwelwch yn dda bod cynnwys y ddogfen hon sy'n ymwneud â'r ACA arfaethedig i lamhidyddion yr harbwr wedi'u datblygu a'u cytuno ar lefel DU. Fodd bynnag, CNC yn unig sydd wedi cynhyrchu cynnwys sy'n ymwneud yn benodol â'r tair AGA arfaethedig.*

Mae Cyrff Cadwraeth Naturiol Statudol y DU (CCNS) wedi adnabod ardaloedd pwysig ar gyfer llamhidyddion yr harbwr yn nyfroedd y Deyrnas Unedig, ar gyfer dynodiad posibl fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), ac ardaloedd pwysig i nifer o rywogaethau o adar môr ar gyfer dynodiad posibl fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Mae'r safleoedd hyn yn ofyniad o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd i alluogi'r DU i gyfrannu at rwydwaith Ewropeaidd o safleoedd a elwir yn 'Natura 2000', sy'n anelu at helpu i warchod bioamrywiaeth Ewrop.

Mae'r ddogfen hon yn darparu atebion i ystod eang o gwestiynau all fod gennych ynghylch y broses hon, a ffiniau'r safleoedd posibl. Ceir rhestr o gwestiynau yn gyntaf, ac yna'r cwestiynau a'r atebion perthnasol iddynt. Rydym yn gobeithio y bydd y rhain yn ateb y rhan fwyaf o gwestiynau, neu o leiaf yn eich cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth a fydd yn gallu ateb eich cwestiynau. Os nad yw'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn ateb eich cwestiwn, mae croeso i chi gysylltu â ni am ragor o wybodaeth; rhoddir manylion ynghylch sut i wneud hynny ar ddiwedd y ddogfen hon.

JNCC Joint Nature Conservation Committee | DOE Department of the Environment www.doeni.gov.uk | NATURAL ENGLAND | Scottish Natural Heritage Dualchas Nàdair na h-Alba All of nature for all of Scotland Nàdar air fad airson Alba air fad

# Meysydd Testun

| | |
|---|---|
| **A: Cefndir**<br>Cefndir i'r ymgynghoriad ac adnabod ardaloedd cadwraeth arbennig posibl (ACA posibl) ar gyfer llamhidyddion yr harbwr ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol arfaethedig (AGA arfaethedig) | **B: ACA posibl i lamhidyddion yr harbwr**<br>Cwestiynau cyffredinol ynghylch yr ACA posibl |
| **C: AGA morol arfaethedig**<br>Cwestiynau cyffredinol ynghylch yr AGA arfaethedig | **D: Proses adnabod safleoedd ar gyfer ACA i lamhidyddion yr harbwr**<br>Y broses a gynhelir er mwyn adnabod ardaloedd a ffiniau ar gyfer ACA posibl i lamhidyddion yr harbwr |
| **E: Proses adnabod safleoedd ar gyfer AGA morol**<br>Y broses a gynhelir er mwyn adnabod ardaloedd a ffiniau ar gyfer AGA morol arfaethedig | **F: Data a dadansoddiad ar gyfer ACA llamhidyddion yr harbwr**<br>Y ffynonellau data a ddefnyddiwyd, a'r dadansoddiad a gynhaliwyd i adnabod ACA posibl i lamhidyddion yr harbwr |
| **G: Y broses ymgynghori a dynodi ar gyfer ACA ac AGA**<br>Sut mae'r ymgynghoriad cyhoeddus yn dylanwadu ar y cynigion ar gyfer ACA llamhidyddion yr harbwr ac AGA morol | **H: Y tu hwnt i'r ymgynghoriad**<br>Y broses a gynhelir unwaith y bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi cau |
| **I: Rheoli ACA ac AGA dynodedig**<br>Rolau a chyfrifoldebau a rheolaeth ACA llamhidyddion yr harbwr, ac AGA ar gyfer adar y môr os y'u dynodir | **J: Sut i gael gwybod rhagor**<br>Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt<br>Map cryno o'r safleoedd |

## Rhestr o Gwestiynau

### A. Cefndir

1. Beth yw ardaloedd morol gwarchodedig (*marine protected areas MPAs*)?
2. Beth yw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)?
3. Beth yw Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)?
4. Sut mae ACA ac AGA yn wahanol i Barthau Cadwraeth Morol?
5. Sawl ACA forol sydd i'w cael ar hyn o bryd yn y DU a beth maen nhw'n ei warchod?
6. Sawl ACA ac AGA forol sydd i'w cael ar hyn o bryd yng Nghymru?
7. Pam mae angen unrhyw ACA pellach arnom?
8. Pam mae angen unrhyw AGA pellach arnom?
9. Pam bod cymaint o ddynodiadau gwahanol?

10. Pam bod dau ymgynghoriad ACA ar y gweill?
11. A oes angen i fi ymateb i'r ddau ymgynghoriad?

B. ACA posibl i lamhidyddion yr harbwr

12. Pa nodweddion sy'n cael eu cynnwys yn yr ACA posibl?
13. Ble mae'r ACA posibl?
14. Pa mor fawr yw'r ACA posibl?
15. A fydd unrhyw safleoedd eraill newydd i lamhidyddion yr harbwr yn nyfroedd y DU?
16. A yw llamhidyddion yr harbwr yn cael eu gwarchod mewn unrhyw ffyrdd eraill?
17. O gofio bod llamhidyddion yr harbwr eisoes yn rhywogaeth Ewropeaidd a warchodir, sut mae'r ACA yn eu diogelu?
18. Gan fod niferoedd uchel o lamhidyddion yr harbwr yn nyfroedd y DU a chan fod hon yn rhywogaeth eang, pam mae arnom angen safleoedd i'w diogelu?
19. Faint fydd y safleoedd hyn yn ei gostio?
20. Pam bod y safleoedd hyn mor fawr?

C. AGA morol arfaethedig

21. Pa nodweddion sy'n cael eu cynnwys yn yr AGA arfaethedig?
22. Ble mae'r AGA arfaethedig newydd?
23. A fydd unrhyw AGA newydd eraill, neu newidiadau i safleoedd sydd eisoes yn bodoli yn nyfroedd Cymru?
24. Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl a pham nad yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn?
25. Pa warchodaeth sy'n cael ei darparu gan AGA a sut bydd y rhywogaethau dan sylw'n elwa?

D. Proses adnabod safleoedd ar gyfer ACA i lamhidyddion yr harbwr

26. Pwy oedd yn gyfrifol am adnabod yr ardaloedd hyn?
27. Sut cafodd yr ardaloedd pwysig ar gyfer llamhidyddion yr harbwr eu hadnabod?
28. A oes unrhyw un o'r cynigion ACA yn gorgyffwrdd ag ACA presennol, ac os felly, pam nad oes modd ychwanegu nodweddion at safleoedd sydd eisoes yn bodoli?
29. Roedd fy nata/adroddiad wedi canfod bod ardaloedd eraill yn bwysig: pan nad ydynt wedi'u cynnwys?
30. Beth yw'r Unedau Rheoli a pham y dewiswyd tair ohonynt?

E. Proses adnabod safleoedd i AGA morol

31. Sut cafodd yr ardaloedd pwysig ar gyfer adar môr eu hadnabod?
32. A oes unrhyw un o'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer adar yn gorgyffwrdd ag AGA ac ACA presennol?

F. Data a dadansoddiad ar gyfer ACA llamhidyddion yr harbwr

33. Pa ddata a ddefnyddiwyd, a sut alla i gael gafael arno?
34. A yw'r dystiolaeth yn ddigonol i ddynodi'r safleoedd?
35. Beth os oes gennym ragor o ddata nad yw eto wedi'i ddefnyddio yn y dadansoddiad?
36. Beth yw ystyr canlyniadau'r dadansoddiad yn nhermau presenoldeb llamhidyddion yr harbwr yn yr ardaloedd a ddewiswyd?
37. A fu'r gwaith yn destun adolygiad arbenigol?

G. Y broses ymgynghori a dynodi ar gyfer ACA ac AGA

38. Pam nad oes ymgynghoriad yn digwydd ar safleoedd i lamhidyddion yr harbwr yn nyfroedd yr Alban?
39. Pa mor sefydlog yw ffiniau'r safleoedd arfaethedig, a pha bosibilrwydd sydd o'u newid?
40. A benderfynwyd eisoes ba safleoedd ACA ac AGA fydd yn cael eu dynodi?
41. Sut fydd unrhyw effeithiau cymdeithasol ac economaidd yn sgil y safleoedd yn cael eu hasesu a'u hystyried?
42. Pwy sy'n penderfynu yn y pen draw a fydd safleoedd yn cael eu dynodi?

H. Y tu hwnt i'r ymgynghoriad

43. Beth yw'r amserlen i'r safleoedd ar ôl yr ymgynghoriad?

44. Sut gaiff ymatebion i’r ymgynghoriad eu hystyried?
45. Pryd fydd y penderfyniad ynghylch dynodi ai peidio yn debygol o gael ei wneud?
46. Ydy’r safleoedd yn cael eu gwarchod yn ffurfiol yn barod?
47. A fydd y ACA llamhidyddion yr harbwr yn ddigonol i fodloni rhwymedigaethau?
48. A fydd yr AGA morol yn ddigonol i fodloni rhwymedigaethau?

I. Rheoli ACA ac AGA dynodedig

49. Beth yw amcanion cadwraeth y safleoedd?
50. Pwy sy’n gyfrifol am reoli ACA ac AGA?
51. Sut fydd y safleoedd yn cael eu rheoli?
52. Sut mae safleoedd trawsffiniol yn cael eu trin?
53. A fydd y safleoedd newydd yn effeithio ar unrhyw weithgareddau cyfredol?
54. Sut fydd unrhyw weithgareddau newydd yn cael eu heffeithio?
55. Pa weithgareddau fydd yn cael eu rheoli?

J. Sut i gael gwybod rhagor

## Termau ac acronymau allweddol

| | |
|---|---|
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| ACAa | Ardal Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig. Dyma safleoedd sy’n destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn penderfynu a ddylid eu ‘dosbarthu’n’ (dynodi) ffurfiol |
| ACAp | ACA posibl. Dyma safleoedd sy’n destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn penderfynu a ddylid eu cyflwyno’n ffurfiol i’r CE. |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| AMG | Ardaloedd Morol Gwarchodedig – term cyfunol am yr holl safleoedd morol dynodedig |
| CALl | Corff Anllywodraethol |
| CCNS | Cyrff Cadwraeth Natur Statudol (CBCN, NE, SNH, CNC a DOENI) |
| CE | Comisiwn Ewropeaidd |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| DOE (NI) | Department of the Environment (Northern Ireland) |
| FCS | Statws Cadwraeth Ffafriol |
| JCP | Joint Cetacean Protocol |
| JNCC | Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur |
| MCZ | Parth Cadwraeth Morol (yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon) |
| NC MPA | Nature Conservation MPA (yn yr Alban) |
| NE | Natural England |
| SNH | Scottish Natural Heritage |
| yACA | yACA ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig (safle sydd wedi’i gyflwyno’n ffurfiol i’r CE yn dilyn ymgynghoriad) |

# Cwestiynau ac atebion

## A. Cefndir

1. **Beth yw ardaloedd morol gwarchodedig (*marine protected areas MPAs*)?**
Yn hytrach na math penodol o ddynodiad, term cyffredinol yw ‘ardal forol warchodedig’, sy’n ymdrin ag unrhyw fath o ardal warchodedig yn yr amgylchedd morol, gan gynnwys ardaloedd aberol, arfordirol ac alltraeth.  Felly, mae ACA llamhidyddion yr harbwr posibl yn fath o ardal forol warchodedig.

2. **Beth yw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)?**
Ardaloedd o dir, dŵr croyw a/neu fôr yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) sydd wedi’u dynodi dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd yn rhai sy’n benodol bwysig i gadwraeth y cynefinoedd naturiol a’r rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid (heblaw adar) a gynhaliant.
Mae’r Gyfarwyddeb yn dynodi bod rhaid sefydlu rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd cadwraeth pwysig o ansawdd uchel a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i gadw'r mathau o gynefinoedd a rhywogaethau a nodir yn Atodiadau I a II o’r Gyfarwyddeb. Y mathau o gynefinoedd a rhywogaethau sy’n cael eu rhestru yn yr Atodiadau yw’r rhai y credir eu bod fwyaf angen cadwraeth ar lefel Ewropeaidd (ac eithrio adar, sy’n cael eu cynnwys mewn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) dan y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Gadw Adar Gwyllt).

3. **Beth yw Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)?**
Mae Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yn ardaloedd wedi’u dynodi (neu ‘eu dosbarthu’) dan Gyfarwyddeb Adar Gwyllt yr Undeb Ewropeaidd 2009 ar gyfer gwarchod poblogaethau adar gwyllt sy’n bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol (fe’u rhoddwyd ar waith yn 1979). Rhaid i holl aelod-wladwriaethau’r UE ddosbarthu’r ardaloedd mwyaf addas ar dir ac ar y môr yn AGA.

4. **Sut mae ACA ac AGA yn wahanol i Barthau Cadwraeth Morol?**
Mae Parthau Cadwraeth Morol (*Marine Conservation Zones* MCZ) yn fath penodol o ddynodiad y gellir ei wneud dan gyfraith ddomestig drwy Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir (2009) yn nyfroedd Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru. Ar y llaw arall, mae AGA a ACA yn fesurau cadwraeth ar gyfer bioamrywiaeth ac adar gwyllt ledled yr UE ac maent yn ofynnol dan gyfraith yr UE. Mae gan y dynodiadau gwahanol hyn wahanol brosesau dethol a threfniadau rheoli, ond maent i gyd yn cyfrannu at rwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig cyffredinol sydd wedi’i lunio i gefnogi gwell rheolaeth ar ddyfroedd y DU/UE.  Gwahaniaeth pwysig rhwng ACA ac AGA a Pharthau Cadwraeth Morol yw bod yn rhaid adnabod a dynodi ACA ac AGA yn unig ar sail gwybodaeth wyddonol berthnasol, lle mae’n bosibl i benderfyniadau ynghylch dynodi Parthau Cadwraeth Morol hefyd roi sylw i ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd.

5. **Sawl ACA forol sydd i’w cael ar hyn o bryd yn y DU a beth maen nhw’n ei warchod?**
Ar hyn o bryd, mae 108 ACA forol yn nyfroedd y DU yn cwmpasu oddeutu 67,000km$^2$, ac yn gwarchod nifer o gynefinoedd a rhywogaethau a restrir yn Atodiadau I a II o’r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.  Mae rhestr lawn o ACA forol, ynghyd â gwybodaeth ar y nodweddion y maen nhw’n eu gwarchod ar gael fan hyn: http://jncc.defra.gov.uk/page-23.

6. **Sawl ACA ac AGA forol sydd i'w cael ar hyn o bryd yng Nghymru?**
Mae gwybodaeth am nifer ac arwynebedd moroedd Cymru sy'n cael eu cynnwys mewn ardaloedd morol gwarchodedig presennol, gan gynnwys ACA ac AGA presennol, yn cael ei darparu yn y tabl isod.

| Math o Ardal | Nifer y Safleoedd | Arwynebedd o Foroedd Cymru a ddynodwyd ($Km^2$)[2] | Canran o foroedd Cymru a ddynodwyd |
|---|---|---|---|
| ACA | 11 | 5007 | 31.41% |
| AGA | 9 | 1314 | 8.08% |
| SoDdGA | 103 | 421 | 2.64% |
| Ramsar | 4 | 240 | 1.21% |
| Parth Cadwraeth Forol | 1 | 13 | 0.08% |
| **Cyfanswm** | **128** | **5592** | **35.08%** |

7. **Pam mae angen unrhyw ACA pellach arnom?**
Mae cyfres o ACA eisoes yn bodoli yn nyfroedd y DU i'r rhan fwyaf o gynefinoedd a'r rhywogaethau perthnasol a restrir yn Atodiadau I a II o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, ond un yn unig sy'n bodoli ar hyn o bryd i lamhidyddion yr harbwr gyda'r rhywogaeth fel nodwedd gymwys. Ni ystyrir bod y safle hwn (Skerries and Causeway yng Ngogledd Iwerddon) yn gyfreithiol ddigonol i gyflawni ein rhwymedigaethau tuag at lamhidyddion yr harbwr dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Adolygwyd y dystiolaeth o bryd i'w gilydd, a daeth yr adolygiad diweddaraf i'r casgliad bod digon o dystiolaeth er mwyn bwrw ymlaen i adnabod ac argymell rhwydwaith o safleoedd; o'r rheiny, mae 5 yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

8. **Pam mae angen unrhyw AGA pellach arnom?**
Mae cyfres o AGA eisoes wedi'u dynodi ar dir ac ar y môr yng Nghymru ac yng ngweddill y DU, ond mae angen inni wneud rhagor yn yr amgylchedd morol i adlewyrchu pwysigrwydd penodol dyfroedd Cymru a'r DU i adar morol. Bydd hyn yn sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau'r DU dan y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt.

9. **Pam bod cymaint o ddynodiadau gwahanol?**
Mae cadwraeth bioamrywiaeth morol wedi bod yn esblygu ers sawl blwyddyn, mewn ymateb i ddatblygiadau mewn deddfwriaeth ddomestig a pholisi llywodraeth, cyfarwyddebau'r UE a chytundebau rhyngwladol. Mae gan bob un o'r rhain hanes a set o reolau gwahanol, sy'n golygu bod amrywiaeth o ddynodiadau ardaloedd gwarchodedig a phob un yn ateb dibenion gwahanol neu'n cynnig gwahanol lefelau o warchodaeth i'r nodweddion dynodedig. Yn unigol, eu nod yw gwarchod nodweddion penodol a'r amgylchedd sy'n cefnogi'r nodweddion hynny; gyda'i gilydd, maent yn creu rhwydwaith ar gyfer gwell gwarchodaeth a rheolaeth ar hyd holl ddyfroedd y DU.

[1] 'Ystyr 'moroedd Cymru' yn y cyd-destun hwn yw'r Marc Penllanw Cymhedrol hyd at y terfyn 12 morfilltir =15,942 $km^2$.
[2] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys arwynebedd y tair estyniad AGA morol a wnaed y 2014.

10. **Pam bod dau ymgynghoriad ACA ar y gweill?**

    Mae hyn yn ganlyniad o ddatganoli a’r angen i roi cyngor ar wahân i bob un o Lywodraethau’r DU. Ymhellach, mae’r ymgynghoriad ar ACA posibl i lamhidyddion yr harbwr yng Nghymru yn digwydd ar yr un adeg ag ymgynghoriad arall ar sawl ACA arfaethedig, felly teimlwyd mai dyma’r ymagwedd fwyaf priodol. Mae’r Cyrff Cadwraeth Natur Statudol yn cydweithio’n agos iawn, felly mae sylw at un ymgynghoriad sy’n berthnasol i’r llall yn cael ei ystyried gan gyrff eraill.

11. **A oes angen i fi ymateb i’r ddau ymgynghoriad?**

    Bydd angen dau ymateb (un i ymgynghoriad CNC ac un i ymgynghoriad JNCC) os ydych yn dymuno cynnig sylwadau sy’n benodol i bob safle unigol ymhlith y cynigion ACA yn y ddau ymgynghoriad. Fodd bynnag, gellir cyflwyno sylwadau mwy cyffredinol ei natur i un ymgynghoriad, o ystyried fod CNC a’r JNCC yn cydweithio yn agos yn y broses o adrodd ar yr ymgynghoriadau. Mewn perthynas ag ACA bosibl Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren, cyfran fach iawn yn unig o'r ardal sydd yn nyfroedd glannau Cymru. Oni bai bod eich sylwadau yn ymwneud yn benodol â rhan Cymru yr Ardal Cadwraeth Arbennig bosibl hon, gofynnir ichi ymateb i ymgynghoriad Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU yn hytrach nag i Gyfoeth Naturiol Cymru. Gellir canfod holl ddogfennau ymgynghoriad CNC yma: www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k.

    Am wybodaeth am yr ymgynghoriad cyfochrog ar gynigion ACA mewn ardaloedd eraill o’r DU, ewch i wefan y JNCC: http://jncc.defra.gov.uk/SACconsultation

**Dychwelyd i’r brig**

## B. ACA posibl i lamhidyddion yr harbwr

12. **Pa nodweddion sy’n cael eu cynnwys yn yr ACA posibl?**

    Ar gyfer llamhidyddion yr harbwr *(Phocoena phocoena)* y mae’r cynigion ACA posibl. Byddai’r safleoedd hyn yn ddynodiadau ‘un nodwedd’ a fyddai’n berthnasol i’r rhywogaeth hon yn unig ac yn cael eu rheoli yn unol â hynny. Ar hyn o bryd, un ACA sydd wedi’i dynodi o fewn dyfroedd y DU ar gyfer llamhidyddion yr harbwr fel rhywogaeth gymwys, sef ACA Skerries a Causeway. Ymhellach, caiff llamhidyddion yr harbwr, ar hyn o bryd, eu rhestru mewn 34 ACA presennol fel nodwedd anghymwys, ac felly nid oes angen sicrhau bod mesurau rheoli penodol yn eu lle i’r rhywogaeth. Fodd bynnag, bydd rheoli’r cynefinoedd o fantais i’r rhywogaeth yn anuniongyrchol drwy warchod nodweddion sy’n bwysig i lamhidyddion yr harbwr ac sy’n cefnogi eu prif anghenion. Mae ACA posibl llamhidyddion yr harbwr yn gorgyffwrdd gyda nifer o ardaloedd morol gwarchodedig presennol, gan gynnwys AGA morol a ACA morol sydd wedi’u dynodi ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau eraill.

13. **Ble mae’r ACA posibl?**

    Mae yna 5 ACA posibl i lamhidyddion yr harbwr sy’n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Isod, rhoddir map dangosol o’r ffiniau dan sylw. Mae mapiau ffin terfynol hefyd ar gael ar dudalennau ymgynghori perthnasol gwefannau CNC a JNCC.

14. **Pa mor fawr yw’r ACA posibl?**

    Mae’r 5 ACA posibl i lamhidyddion yr harbwr yn cwmpasu arwynebedd o 55,039km$^2$. Dangosir yr ardaloedd unigol isod:

| **Enw'r safle** | **Arwynebedd y safle (km²)** |
|---|---|
| Bristol Channel Approaches/ Dynesfeydd Môr Hafren | 5,851 |
| West Wales Marine / Gorllewin Cymru Forol | 7,377 |
| North Anglesey Marine/ Gogledd Môn Forol | 3,249 |
| North Channel | 1,604 |
| Southern North Sea | 36,958 |

15. **A fydd unrhyw safleoedd eraill newydd i lamhidyddion yr harbwr yn nyfroedd y DU?**
Mae'n bosibl y bydd safleoedd pellach yn cael eu cynnig yn y dyfodol yn nyfroedd yr Alban, fodd bynnag, nid oes unrhyw gynlluniau pellach i adnabod mwy o safleoedd yn nyfroedd Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd. Mae'r 5 safle sy'n destun ymgynghoriad wedi'u dethol gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i adnabod ardaloedd a chanddynt ddwysedd uwch parhaus o lamhidyddion yr harbwr, ac mae'r cynigion yn bodloni meini prawf a gynlluniwyd i adnabod yr opsiynau gorau posibl ar gyfer cynorthwyo i warchod y rhywogaeth.

16. **A yw llamhidyddion yr harbwr yn cael eu gwarchod mewn unrhyw ffyrdd eraill?**
Mae llamhidyddion yr harbwr yn cael eu gwarchod dan gyfraith y DU yn Lloegr a Chymru gan adran 9 ac Atodlen 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Ymhellach, mae Cyfarwyddeb Cynefinoedd 1992 yr UE, y caiff ACA eu dynodi o'i mewn, hefyd yn gwahardd lladd, cipio neu amharu'n fwriadol ar lamhidyddion yr harbwr yn unrhyw ddyfroedd Ewropeaidd. Mae'r Gyfarwyddeb yn rhan o gyfraith y DU drwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010[3] a Rheoliadau Cadwraeth Morol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 2007[4] (fel y'u diwygiwyd); ac yng Ngogledd Iwerddon drwy'r Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, etc.) (Gogledd Iwerddon) 1995 (fel y'u diwygiwyd). Ymhellach, rhoddir ystyriaeth i lamhidyddion yr harbwr drwy ddarpariaethau Cyfarwyddeb Fframwaith Strategath Forol yr UE (MSFD) sy'n nodi bod yn rhaid i Aelod-Wladwriaethau ddatblygu strategaethau morol ar gyfer rheoli gweithgareddau dynol; confensiwn OSPAR ar gyfer rhywogaethau dan fygythiad; a Rheoliad 18 Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE a Rheoliad 812/2004 ynghylch mân ddalfeydd o forfiligion mewn pysgodfeydd. Mae llamhidyddion yr harbwr hefyd wedi'u cynnwys yng y Cytundeb Rhyngwladol ar Gadwraeth Morfiligion Bach yn y Baltig, Gogledd Ddwyrain yr Iwerydd, Môr Iwerddon a Môr y Gogledd (ASCOBANS); mae'r DU wedi llofnodi'r cytundeb hwn.

17. **O gofio bod llamhidyddion yr harbwr eisoes yn rhywogaeth Ewropeaidd a warchodir, sut mae'r ACA yn eu diogelu?**
Mae nifer o rywogaethau, gan gynnwys llamhidyddion yr harbwr, wedi eu rhestru yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd fel rhai sydd angen dynodiadau ACA os gaiff lleoliadau addas eu hadnabod, yn ogystal â chael eu diogelu'n ofalus fel rhywogaeth, ble bynnag y ceir hwy. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu diogelu'n ofalus rhag cael eu cipio, eu hanafu neu eu haflonyddu yn fwriadol dan gyfraith Ewropeaidd a'r DU, os ydynt mewn ACA neu beidio.
Mae ACA yn helpu i ddiogelu'r nodweddion dynodedig, yn yr achos hwn, llamhidyddion yr harbwr a'i gynefinoedd, o fewn ffiniau'r safle. Er bod llamhidyddion yr harbwr yn rywogaeth

[3] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/490/pdfs/uksi_20100490_en.pdf
[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/1842/pdfs/uksi_20071842_en.pdf

hynod o symudol, yr ACA posibl a glustnodwyd yw'r rhai a chanddynt ddwysedd uchel parhaus mewn cymhariaeth ag ardaloedd eraill, gan ddangos bod y cynefinoedd o fewn yr ardaloedd hyn yn bwysicach na'r rhai y tu hwnt i'r safleoedd hyn.

Mae ACA yn rhoi sylfaen i sicrhau fod unrhyw reolaeth neu reoliad a allai fod yn angenrheidiol i ddiogelu cynefin llamhidyddion yr harbwr yn cael eu cymhwyso yn yr ardaloedd cywir. Yn fwy penodol, mae dynodiad ACA hefyd yn sbarduno'r broses dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd lle mae'n ofynnol ystyried cynlluniau a phrosiectau (cynigion â'r potensial i effeithio'n negyddol ar y safle) a'i gymeradwyo yn unig pan ddangosir nad ydynt yn cael effaith anffafriol ar y rhywogaethau neu'r cynefinoedd dynodedig. Mae sawl ACA ar gyfer llamhidyddion yr harbwr eisoes wedi'u dynodi gan rai o Aelod Wladwriaethau eraill y UE.

18. **Gan fod niferoedd uchel o lamhidyddion yr harbwr yn nyfroedd y DU a chan fod hon yn rhywogaeth eang, pam mae arnom angen safleoedd i'w diogelu?**
Yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael, amcangyfrif bod poblogaeth llamhidyddion yr harbwr yn nyfroedd y DU sy'n llai na 200m mewn dyfnder oddeutu 130,000 o unigolion. Mae'r amgcangyfrif hwn yn seiliedig ar ganlyniad arolwg o forfiligion gogledd orllewin Ewrop yng nghyffiniau'r silff cyfandirol Ewropaidd a gynhaliwyd yng Ngorffennaf 2005. Mae'r data sydd ar gael yn nodi bod llamhidyddion yr harbwr mewn statws cadwraeth ffafriol o fewn dyfroedd y DU ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae poblogaeth llamhidyddion yr harbwr yn wynebu ystod o bwysau sy'n holl bresennol (e.e. llygredd) a bylchog (e.e. sgil-ddalfeydd) eu natur, ac felly mae angen gwarchodaeth o fewn ardaloedd gwarchodedig a thrwy fesurau ehangach. Mae llamhidyddion yr harbwr wedi eu cynnwys ar restr rhywogaethau Atodiad II yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, sy'n golygu ei bod yn ofynnol dynodi ACA ar eu cyfer. Y bwriad yw bod ACA ar gyfer rhywogaethau eang yn cynrychioli'r ardaloedd sydd, yn ôl y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael, yn rhai o'r ardaloedd pwysicaf ar gyfer y rhywogaeth o fewn ei gwasgariad naturiol. Yr ardaloedd a glustnodwyd ar gyfer llamhidyddion yr harbwr yw'r rhai o fewn dyfroedd y Deyrnas Unedig a chanddynt ddwysedd uwch parhaus o lamhidyddion yr harbwr yn dilyn dadansoddiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth sydd ar gael. Nid ydym yn llawn ddeall pam yn union y mae'r ardaloedd hyn yn arbennig o atyniadol i lamhidyddion yr harbwr, ond mae'n debygol fod rhyw gysylltiad â'r ffaith fod mwy o adnoddau bwyd ar gael yno, un ai drwy gydol y flwyddyn neu yn dymhorol.

19. **Faint fydd y safleoedd hyn yn ei gostio?**
Mae adroddiad Sylfaen Dystiolaeth Asesiad Effaith yn darparu asesiadau o gostau posibl y safleoedd hyn ac ar gael fel rhan o'r deunydd ategol i'r ymgynghoriad hwn. Datblygwyd Asesiad Effaith yn seiliedig ar hyn, ac mae modd cynnig sylwadau arno fel rhan o'r ymgynghoriad gyda golwg ar gynhyrchu fersiwn derfynol cyn i Weinidogion benderfynu a ydynt yn mynd i ddynodi'r safleoedd ai peidio.

20. **Pam bod y safleoedd hyn mor fawr?**
Dewiswyd y safleoedd i gynrychioli'r dair rhan o ddyfroedd y DU (Unedau Rheoli) a chanddynt ddwysedd uwch parhaus o lamhidyddion yr harbwr, tra hefyd yn bodloni meini prawf dethol safle y Gyfarwyddeb, a hefyd trwy ystyried arweiniad a ddarparwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Er mwyn bodloni cymaint ag sy'n bosibl o'r arweiniad, roedd yn rhaid i safleoedd fod yn fawr i sicrhau bod nifer digonol a chynefinoedd digonol o'r rhywogaeth symudol hwn yn cael eu cynnwyso fewn y rhwydwaith ACA.

**Dychwelyd i'r brig**

## C. AGA morol arfaethedig

21. **Pa nodweddion sy'n cael eu cynnwys yn yr AGA arfaethedig?**
Bydd yr AGA arfaethedig newydd posibl yn gwarchod nifer o wahanol rywogaethau adar môr, gan gynnwys: aderyn drycin Manaw, Pâl, trochydd gyddfgoch, y fôr-wennol gyffredin, môr-wennol y Gogledd, y fôr-wennol bigddu a'r fôr-wennol wridog.

22. **Ble mae'r AGA arfaethedig newydd?**
Dangosir map dangosol o'r AGA arfaethedig isod ac ym mhapur ymgynghoriad CNC.
Yr ardaloedd dan ystyriaeth ar gyfer rhywogaethau adar môr yn Nyfroedd Cymru yw:
    - Anglesey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn ar gyfer rhywogaethau'r fôr-wennol – môr-wennol y Gogledd, y fôr-wennol gyffredin, y fôr-wennol bigddu a'r fôr-wennol wridog (*Sterna paradisaea*, *Sterna hirundo*, *Sterna sandvicensis* a *Sterna dougallii*)
    - Northern Cardigan Bay / Gogledd Bae Ceredigion – ar gyfer trochydd gyddfgoch (*Gavia stellata)*
    - Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro - ar gyfer aderyn drycin Manaw a'r Pâl (*Puffinus puffinus* a *Fratercula arctica*)

    Mae mapiau manwl o bob un o'r safleoedd hyn ar gael hefyd o dudalen we ymgynghoriad CNC: www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k

23. **A fydd unrhyw AGA newydd eraill, neu newidiadau i safleoedd sydd eisoes yn bodoli yn nyfroedd Cymru?**
Mae'r Cydbwyllgor Gwarchod Natur (JNCC) wedi dadansoddi'r data sydd ar gael am adar yn nyfroedd morol y DU ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac wedi cyhoeddi adroddiad sy'n dangos y mannau lle mae adar yn crynhoi, ar gael yn: http://jncc.defra.gov.uk/page-5522.
Mae JNCC yn dal i gynghori Defra ar yr ardaloedd hyn yn Nyfroedd Alltraeth y DU ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond ni phenderfynwyd eto ynghylch symud ymlaen ag unrhyw gynigion safle ychwanegol ar gyfer yr ardal alltraeth o gwmpas Cymru.
Yn ogystal â'r AGA newydd posibl yng ngogledd Bae Ceredigion, ac estyniadau i ddau AGA sydd eisoes yn bodoli yn Sir Benfro ac Ynys Môn, mae newidiadau yn cael ei ystyried i AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl ac efallai y byddwn yn ymgynghori yn ffurfiol maes o law.

24. **Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried i AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl a pham nad yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn?**
Mae AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl yn ardal drosffiniol, yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Cynhaliodd Natural England gyfnod o drafodaeth anffurfiol yn 2015 gyda rhanddeiliaid allweddol ynghylch addasiadau arfaethedig i'r AGA. Mae'r addasiadau posibl yn bennaf effeithio ar rhan Lloegr / alltraeth y safle ac felly Natural England sy'n arwain y broses. Ceir amserlen ymgynghori ar wahân ochr yn ochr â'r safleoedd eraill sy'n cael eu datblygu yn Lloegr.
Dyma'r newidadau dan ystyriaeth i AGA Liverpool Bay/Bae Lerpwl:
    - I sicrhau gwarchodaeth i'r wylan fach (*Hydrocoloeus minutus)*
    - I ychwanegu nodweddion hysbys ychwanegol i'r safle er mwyn gwarchod ardaloedd chwilota am fwyd y fôr-wennol gyffredin (*Sterna hirundo*) o'r nythfa yn Seaforth (AGA Mersey Narrows and North Wirral Foreshore) a'r fôr-wennol fach (*Sternula albifrons*) o'r nythfa yng Ngronant (AGA The Dee Estuary)
    - I addasu'r casgliad o adar dŵr ac ychwanegu'r hwyaden frongoch(*Mergus serrator*) a'r forfran (*Phalacrocorax carbo*) fel nodweddion a enwir.

    Am ragor o wybodaeth am y cynigion hyn, gweler Nodyn Gwybodaeth Dechnegol Natural England:
    http://publications.naturalengland.org.uk/publication/5118471743471616

25. **Pa warchodaeth sy'n cael ei darparu gan AGA a sut bydd y rhywogaethau dan sylw'n elwa?**

Mae AGA yn helpu i ddiogelu'r rhywogaethau adar penodol sy'n nodweddion dynodedig i'r ardaloedd hynny.

Y DU sydd â'r poblogaethau adar môr bridio mwyaf ymhlith aelod wladwriaethau'r UE, gydag oddeutu 3.5 miliwn o adar ar draws 26 o rywogaethau. Mae gan Gymru boblogaethau pwysig o adar môr, er enghraifft, mae tua 57% o boblogaeth byd-eang aderyn drycin Manaw, ac un o boblogaethau bridio'r wylan gefnddu leiaf (*Larus Fuscus*) mwyaf ym Mhrydain i'w cael ar ynysoedd Sgogwm a Sgomer.

Mae'r awdurdodau sy'n gyfrifol am yr ardaloedd hyn yn sicrhau y cânt eu gwarchod drwy fabwysiadau polisïau a hyrwyddo arfer da sy'n gwarchod rhywogaethau ac osgoi aflonyddwch a dirywiad yn eu cynefinoedd, a thrwy asesu a rheoli unrhyw ddatblygiadau yn yr ardaloedd, neu rai sy'n effeithio ar yr ardaloedd.

Mae AGA yn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau arfordirol neu forol newydd sy'n debygol o effeithio ar y poblogaethau adar perthnasol, yn cael eu hasesu, boed y datblygiad o fewn y safle neu'r tu allan i ffin y safle. Bydd yr asesiad hwn yn ystyried unrhyw effeithiau posibl ar yr adar eu hunain (e.e. drwy aflonyddwch), neu'r cynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt a hynny o fewn a thu allan i ffiniau'r safle.

Bwriad arall dynodiad AGA ar gyfer yr adar dan ystyriaeth yw hybu ymwybyddiaeth am y rhywogaethau hyn, a'r ardaloedd lle maen nhw'n byw.

**Dychwelyd i'r brig**

## D. Proses adnabod safleoedd ar gyfer ACA i lamhidyddion yr harbwr

26. **Pwy oedd yn gyfrifol am adnabod yr ardaloedd hyn?**

Dan arweinyddiaeth Cydbwyllgor Gwarchod Natur y DU, mae Cyrff Cadwraeth Natur Statudol y DU wedi cydweithio i archwilio tystiolaeth sydd ar gael er mwyn adnabod ardaloedd o fewn dyfroedd y DU a chanddynt ddwysedd uwch parhaus o lamhidyddion yr harbwr. Gwaith y Gweinyddiaethau unigol bellach yw parhau â'r broses yn ôl eu hamserlenni eu hunain.

27. **Sut cafodd yr ardaloedd pwysig ar gyfer llamhidyddion yr harbwr eu hadnabod?**

Y setiau data a ddadansoddwyd yw'r rhai mwyaf sydd ar gael o ran maint a chynnwys ac yn rhychwantu cyfnod o 18 mlynedd (1994-2011), gan gynnwys data arolwg a gomisiynwyd gan y Llywodraeth, a data gan CALl mawr a bach, unigolion a diwydiant. Dadansoddwyd y data drwy ddau gontract a wobrwywyd gan y Cydbwyllgor Gwarchod Natur (gweler Adroddiadau rhif 543 a 544, ar gael yn: http://jncc.defra.gov.uk/page-2132). Defnyddiodd y JNCC a CCNS y DU ganfyddiadau'r dadansoddiadau hyn a adolygwyd gan gyfoedion i ddefnyddio meini prawf dethol a mireinio ardaloedd sydd nawr yn ffurfio'r ACA posibl.

Mae mapiau o'r ACA posibl sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd ar gael o wefan ymgynghoriad CNC: www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k

28. **A oes unrhyw un o'r cynigion ACA yn gorgyffwrdd ag ACA presennol, ac os felly, pam nad oes modd ychwanegu nodweddion at safleoedd sydd eisoes yn bodoli?**

Mae'r ardaloedd a nodwyd fel rhai a chanddynt ddwysedd uwch parhaus o lamhidyddion yr harbwr ledled y DU yn gorgyffwrdd yn rhannol ag ACA presennol, ond nid i raddau helaeth. Felly, ni fyddai modd cyfiawnhau'n wyddonol ychwanegu llamhidyddion yr harbwr fel nodwedd newydd ar ACA presennol ac ni fyddai safleoedd yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r ardaloedd sydd wedi'u hadnabod fel rhai a chanddynt ddwysedd uwch o lamhidyddion yr harbwr. Dynodwyd

yr ACA presennol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau penodol, a chynlluniwyd ffiniau ar gyfer y nodweddion cymwys.

29. **Roedd fy nata/adroddiad wedi canfod bod ardaloedd eraill yn bwysig: pan nad ydynt wedi'u cynnwys?**
Roedd y broses clustnodi safleoedd yn defnyddio data o fewn y *Joint Cetacean Protocol* a oedd yn bodloni safonau technegol penodol, sef data y mae JNCC wedi derbyn caniatâd i'w ddefnyddio i'r diben hwn. Nid yw gwerthusiad o adroddiadau/setiau data unigol sy'n dangos presenoldeb llamhidyddion yr harbwr mewn maes astudio yn ddigon ar ei ben ei hun, gan bod yn rhaid ystyried arwyddocad y data mewn perthynas â phoblogaeth ehangach y DU. Am y rheswm hwn, dadansoddwyd yr holl ddata oedd ar gael ar ddyfroedd y DU i ganfod ardaloedd a chanddynt ddwysedd uwch o lamhidyddion yr harbwr. Ystyriwyd natur barhaol yr ardaloedd dwysedd uchel cyn argymell safleoedd. Credwyd bod hyn yn ddull cadarn o ganfod ardaloedd dwysedd uchel yn hytrach nag adolygu'r holl adroddiadau oedd ar gael; mae casgliadau'r adroddiadau hynny yn aml yn canolbwyntio'n fanwl ar ardal fach, heb fod wedi rhoi'r wybodaeth o fewn cyd-destun ehangach y DU.
Noder: Nid yw'r Alban yn cynnal ymgynghoriad ar safleoedd gyda'r glannau neu mewn dyfroedd alltraeth ar hyn o bryd, felly nid yw safleoedd a ganfuwyd drwy'r broses un nyfroedd yr Alban eto'n amlwg.

30. **Beth yw'r Unedau Rheoli a pham y dewiswyd tair ohonynt?**
Yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, mae gofyniad i warchod llamhidyddion yr harbwr o fewn dyfroedd y DU. Nid yw'r gofyniad hwn yn ystyried ffiniau "agored" ein holl ddyfroedd lle maent yn cwrdd â dyfroedd Aelod Wladwriaethau eraill, nac ychwaith yn ystyried natur amrywiol iawn dyfroedd y DU. Er dibenion asesu rhyngwladol, mae'r Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Archwilio'r Môr (ICES) wedi mabwysiadu nifer o raniadau o Foroedd Gogledd Orllewin Ewrop yn seiliedig mewn rhai achoson ar astudiaethau biolegol, ac mewn eraill ar raniadau daearyddol. Mae tair o'r unedau hynny yn berthnasol i ddyfroedd y DU ac mae'r JNCC a'r CCNS wedi mabwysiadu rhannau'r DU o'r unedau hyn fel Unedau Rheoli er dibenion dadansoddi data ar lamhidyddion yr harbwr: http://jncc.defra.gov.uk/page-6943.
Mantais bellach o ddefnyddio Unedau Rheoli i fodelu dwysedd llamhidyddion yr harbwr yn erbyn newidynnau amgylcheddol yw bod modd defnyddio newidynnau amgylcheddol lleol eu diffiniad a mwy perthnasol. Er enghraifft, gan bod y topograffeg ym Môr Gogledd yn wahanol iawn i'r hyn ydyw yng Ngorllewin Cymru, mae'n bosibl bod ysglyfaeth a holl gynefin llamhidyddion yr harbwr yn yr ardaloedd hynny yn ddibynnol ar wahanol newidynnau amgylcheddol, fel cyflymdra'r cerrynt a gwasgariad gwaddod. Felly ni fyddai modelu gan ddenfyddio canlyniadau Môr y Gogledd yn briodol i Orllewin Cymru.

**Dychwelyd i'r brig**

## E. Proses adnabod safleoedd ar gyfer AGA morol

31. **Sut cafodd yr ardaloedd pwysig ar gyfer adar môr eu hadnabod?**

Dan arweinyddiaeth Cydbwyllgor Gwarchod Natur y DU, mae asiantaethau cadwraeth natur y DU yn gweithio ers nifer o flynyddoedd i gasglu a dadansoddi data ar niferoedd a dosbarthiad y rhywogaethau adar sy'n gwneud defnydd o'r môr ac sydd heb eu cynnwys yn ddigonol yn y rhwydwaith AGA presennol. Mae dyfroedd Cymru a'r DU yn gyfrannau helaeth o boblogaethau Ewrop o lawer rhywogaeth forol, gan gynnwys aderyn drycin Manaw, y pâl a'r wylan gefnddu leiaf.

Y setiau data a ddadansoddwyd yw'r rhai mwyaf sydd ar gael o ran maint a chynnwys. Dadansoddwyd y data gan y Cydbwyllgor Gwarchod Natur ar lefel y DU ac mae'n seiliedig ar resymu gwyddonol cadarn.

Dyma adroddiadau JNCC sy'n sail i'r broses adnabod safleoedd:

- *An analysis of the numbers and distribution of seabirds within the British Fishery limit aimed at identifying areas that qualify as possible marine SPAs.* Adroddiad JNCC Rhif 431
  Ar gael yn: http://jncc.defra.gov.uk/page-5522
- *The identification of possible marine SPAs for seabirds in the UK: The application of Stage 1.1-1.4 of the SPA selection guidelines.* Adroddiad JNCC Rhif 461.

  Ar gael yn*:* http://jncc.defra.gov.uk/page-6268
- *Quantifying usage of the marine environment by terns Sterna sp. around their breeding colony SPAs.* Adroddiad JNCC Rhif 500

  Ar gael yn: http://jncc.defra.gov.uk/page-6644
- *Quantifying foraging areas of little tern around its breeding colony SPA during chick-rearing.* Adroddiad JNCC Rhif 548.

  Ar gael yn: http://jncc.defra.gov.uk/page-6976
- *An assessment of the numbers and distributions of wintering waterbirds using Bae Ceredigion/Cardigan Bay area of search.* Adroddiad JNCC Rhif 555

  Ar gael yn: http://jncc.defra.gov.uk/page-6992

Mae mapiau o'r ardaloedd dan ystyriaeth wedi'u cynnwys yn nhudalen yr ymgynghoriad ar wefan CNC: www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k

32. **A oes unrhyw un o'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer adar yn gorgyffwrdd ag AGA ac ACA presennol?**

Mae'r AGA arfaethedig yn gorgyffwrdd yn sylweddol â nifer o ACA presennol ac, yn achos y cynnig i ymestyn yr AGA o amgylch Ynys Môn, ag AGA presennol arall (AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl). Ni ellir cyfuno AGA ac ACA hyd yn oed pan fyddant yn gorgyffwrdd, gan eu bod yn ddynodiadau gwahanol a wnaed dan Gyfarwyddebau Ewropeaidd gwahanol.

Nid yw'r AGA arfaethedig ar gyfer trochydd gyddfgoch yng ngogledd Bae Ceredigion yn gorgyffwrdd unrhyw AGA arall ond mae'n gorgyffwrdd yn sylweddol gyda ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae AGA arfaethedig Anglesey Terns Morwenoliaid Ynys Môn yn cynnwys nythfeydd bridio morwenoliaid o'r AGA bresennol Ynys Feurig, Cemlyn Bay and The Skerries ac mae'n cael ei ddwyn ymlaen fel ymestyniad morol sylweddol i'r AGA presennol. Mae'r ymestyniad hwn hefyd yn gorgyffwrdd ag AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl. Mae AGA arfaethedig Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro yn cael ei ddwyn ymlaen fel ymestyniad morol pellach o AGA presennol Skokholm and Skomer.

**Dychwelyd i'r brig**

## F. Data a dadansoddiad ar gyfer ACA posibl llamhidyddion yr harbwr

33. **Pa ddata a ddefnyddiwyd, a sut alla i gael gafael arno?**
Cysylltwyd â pherchnogion holl ddata ar lamhidyddion yr harbwr yn y môr a gasglwyd rhwng 1994 a 2011 ac a oedd yn bresennol o fewn y *Joint Cetacean Protocol* ar ddechrau'r prosiect. Os rhoddwyd caniatâd, yna defnyddiwyd y data hwnnw. Roedd y contractwyr a gynhaliodd y dadansoddiad wedi darparu, ac yn berchen ar y rhan fwyaf o'r setiau data o wybodaeth amgylchedol a ddefnyddiwyd yn y modelu. Roedd y contractwyr a gynhaliodd yr arsylwadau ar y tir hefyd wedi cysylltu â pherchnogion data gan ddefnyddio cymaint o ddata ac a ganiatawyd. Caiff perchnogion y data eu cydnabod yn y ddau adroddiad. Mae rhai o'r data yn

perthyn i JNCC a'r CCNS, ac mae'r data hwn ar gael i bawb. Byddai'n rhaid cael caniatâd y perchnogion data perthnasol cyn cael gafael ar, a defnyddio'r data sy'n weddill.

34. **A yw'r dystiolaeth yn ddigonol i ddynodi'r safleoedd?**
Ydy. Mae casglu data sy'n wyddonol gadarn ar rywogaeth symudol, eang ei gwmpas, fel llamhidyddion yr harbwr yn gostus yn nhermau amser ac arian. Defnyddiwyd y set data mwyaf yn Ewrop i'r broses hon, gyda ffynonellau data amrywiol yn cael eu coladu drwy'r *Joint Cetacean Protocol* (http://jncc.defra.gov.uk/page-5657). Defnyddiwyd y data hwn i lunio model dosbarthiad ar gyfer dwysedd llamhidyddion yr harbwr yn seiliedig ar eu perthynasu gyda pharamedrau amgylcheddol fel dyfnder dŵr a'r math o wely môr. O hwn, roedd hi'n bosibl adnabod ardaloedd a chanddynt ddwysedd uchel o lamhidyddion yr harbwr yn nyfroedd y DU dros y cyfnod 18 mlynedd yr oedd data ar gael iddo (1994-2011). Mae'r broses hon wedi'i hadolygu'n drylwyr gan gyfoedion ac fe'i hystyrir gan y JNCC yn ddigon cadarn i ddiffinio ardaloedd yn ACA. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar wefan JNCC: http://jncc.defra.gov.uk/page-6991

35. **Beth os oes gennym ragor o ddata nad yw eto wedi'i ddefnyddio yn y dadansoddiad?**
Roedd y gwaith dadansoddi yn broses fanwl a thrylwyr a gwblhawyd gan y contractwyr yn defnyddio'r holl ddata addas oedd ar gael ar adeg cyflawni'r gwaith. Nid oedd modd cynnwys data a oedd yn bresennol os nad oedd caniatâd wedi'i roi i'w ddefnyddio. Mae'r adroddiad a'r canlyniadau wedi'u hadolygu gan gyfoedion ac wedi'u llofnodi fel sail ddigonol y gellir datblygu ffiniau'r safleoedd arfaethedig arni. Dylid cyflwyno unrhyw ddata cymwys sydd bellach ar gael i'r *Joint Cetacean Protocol* (JCP), er mwyn ei ystyried yn y dyfodol. Er bod y dadansoddiad wedi'i gwblhau ar gyfer adnabod safleoedd posibl ar gyfer llamhidyddion yr harbwr, mae'n bosibl i ddata ychwanegol lywio trefniadau rheoli yn y dyfodol. Os oes gennych ddata nad yw ar hyn o bryd wedi'i gynnwys o fewn y JCP, ond yr hoffech iddo gael ei gynnwys, cysylltwch â Tim Dunn yn JNCC i drafod trefniadau cyflwyno: tim.dunn@jncc.gov.uk.

36. **Beth yw ystyr canlyniadau'r dadansoddiad yn nhermau presenoldeb llamhidyddion yr harbwr yn yr ardaloedd a ddewiswyd?**
Mae'r dadansoddiad data a ddefnyddiwyd i glustnodi ffiniau'r ACA posibl yn pwysleisio dau ffactor: adnabod yr ardaloedd yn y *10% uchaf* o ran dwysedd llamhidyddion yr harbwr, ac asesu *natur barhaol* y dwysedd cymharol uchel hwnnw dros amser. Ystyriwyd mai'r ffactorau hyn oedd y rhai mwyaf priodol er mwyn defnyddio'r data yn y ffordd orau i nodi ardaloedd a oedd yn bwysig i lamhidyddion yr harbwr nid yn unig ar un cyfnod mewn amser, ond yn lled barhaol dros gyfnod amser y set data oedd ar gael.

37. **A fu'r gwaith yn destun adolygiad arbenigol?**
Caiff canlyniadau'r dadansoddiad i ganfod ardaloedd a chanddynt ddwysedd uwch parhaus o lamhidyddion yr harbwr yn y DU eu cyhoeddi ar wefan JNCC: http://jncc.defra.gov.uk/page-6991.
Sefydlwyd grŵp llywio yn cynnwys staff CCNS i arolygu ac adolygu'r gwaith ar ei hynt. Bu ystadegydd yn gweithio o fewn Biomathematics a Statistics Scotland hefyd yn darparu cyngor gan adolygu'r dadansoddiad a'r adroddiadau drafft. Bu'r adroddiad drafft hefyd yn destun adolygiad gan ddau arbenigwyr rhyngwladol ym maes gwyddor mamolion morol (sy'n dymuno aros yn anhysbys). Ar sail yr holl sylwadau, adolygwyd yr adroddiad drafft gan y contractwyr cyn i'r grŵp llywio dderbyn yr adroddiad terfynol.

**Dychwelyd i'r brig**

## G. Y broses ymgynghori a dynodi ar gyfer ACA ac AGA

38. **Pam nad oes ymgynghoriad yn digwydd ar safleoedd i lamhidyddion yr harbwr yn nyfroedd yr Alban?**
Mae'r Cyrff Cadwraeth Natur Statudol wedi cydweithio'n agos i adnabod yr ardaloedd gorau posibl yn nyfroedd y DU i'w cynnig fel ACA i lamhidyddion yr harbwr. Gan bod y dadansoddiad bellach ar ben, mae'r Llywodraethau datganoledig wedi bod yn sicrhau bod y broses wedi'i hadolygu'n ddigonol cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Gwaith y gweinyddiaethau unigol bellach yw parhau'r broses yn unol â'u hamserlenni mewnol eu hunain; mae'n bosibl na fyddant yn union yr un fath rhwng Llywodraethau.

39. **Pa mor sefydlog yw ffiniau'r safleoedd arfaethedig, a pha bosibilrwydd sydd o'u newid?**
Mae ffiniau'r ACA arfaethedig ar gyfer llamhidyddion yr harbwr yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr a manwl sawl blwyddyn o ddata ar wasgariad llamhidyddion yr harbwr yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Cred CCNS y DU fod y ffiniau hyn yn ganlyniad ymagwedd wyddonol gadarn. Yn yr un modd, mae ffiniau'r AGA arfaethedig yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o'r data gorau sydd ar gael ar niferoedd a dosbarthiad y rhywogaethau adar dan sylw yn nyfroedd y DU. Fodd bynnag, safleoedd posibl yw'r rhain ar yr adeg hon a gellir newid y ffiniau os bydd sail wyddonol gadarn a thystiolaeth gadarn dros wneud hynny. Bydd CCNS y DU yn rhoi ystyriaeth ofalus i bryderon ynghylch y ffordd y cafodd y data ei defnyddio i ddatblygu ffiniau'r safle, cyn cyflwyno argymhellion terfynol i'r Llywodraeth.
Mae'n bwysig nodi fodd bynnag, na fydd ystyriaethau cymdeithasol nac economaidd, gan gynnwys er enghraifft yr effaith bosibl o ddynodi ACA neu AGA ar weithgareddau masnachol cyfredol neu weithgareddau o'r fath yn y dyfodol, yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau wrth ddynodi ACA neu AGA neu wrth ddiffinio eu ffiniau (yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar). Rhaid mynd i'r afael â materion o'r fath drwy benderfyniadau rheoli'r ardaloedd hyn unwaith y byddant wedi cael eu dynodi.

40. **A benderfynwyd eisoes ba safleoedd ACA ac AGA fydd yn cael eu dynodi?**
Naddo. I'r ACA arfaethedig, bydd y Gweinidogion perthnasol yn gwneud penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ffurfiol ddigwydd ac ar ôl i CCNS y DU ddarparu adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad (ac unrhyw addasiadau i'r cyngor yn dilyn hynny). Rhaid i'r penderfyniad ynghylch cyflwyno ymgeisydd ACA i'r Comisiwn Ewropeaidd gael ei wneud yn unig ar sail y dystiolaeth wyddonol i'r safleoedd dan ystyriaeth. Yn yr un modd gyda'r AGA, bydd Gweinidogion Cymru (ac yn achos yr ardal alltraeth oddi ar Sir Benfro, Gweinidog y DU) yn gwneud penderfyniad ynghylch dosbarthu'r safleoedd yn ffurfiol yng ngoleuni'r ymateb i'r ymgynghoriad. Fel yn achos ACA, rhaid i'r penderfyniad ynghylch dynodi AGA gael ei wneud ar sail tystiolaeth wyddonol berthnasol yn unig.

41. **Sut fydd unrhyw effeithiau cymdeithasol ac economaidd yn sgil y safleoedd yn cael eu hasesu a'u hystyried?**
Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar yr ACA a'r AGA arfaethedig, mae ymgynghorwyr annibynnol wedi paratoi Sylfaen Dystiolaeth Asesiad Effaith sy'n disgrifio'r goblygiadau cymdeithasol ac economaidd posibl yn sgil dynodi'r ardaloedd hyn. Mae hyn yn ffurfio rhan o'r deunydd ategol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus.
Gall yr Asesiadiadau o Effaith, a luniwyd ar sail y sylfaen dystiolaeth, fod yn gymorth i rhanddeiliad allu deall effaith bosibl safleoedd newydd a gall lywio penderfyniadau gan rheoli pan fydd y safleoedd wedi'u sefydlu, ond rhaid i'r penderfyniad i ddynodi gael ei wneud ar sail y dystiolaeth wyddonol am y rhywogaeth dan ystyriaeth ac nid ar effeithiau cymdeithasol ac economaidd posibl.

42. **Pwy sy'n penderfynu yn y pen draw a fydd safleoedd yn cael eu dynodi?**
Cyn i ACA gael eu dynodi, mae'n rhaid iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) fel 'ymgeisydd ACA' (yACA). Byddai hyn yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad ac ar sail y cyngor terfynol o Gyrff Cadwraeth Natur Statudol y DU i'w Llywodraethau perthnasol. Unwaith bod yACA yn cael ei derbyn fel Safle o Bwysigrwydd Cymunedol (*Site of Community Importance*) gan yr UE, yna mae gan y DU hyd at chwe mlynedd i ddynodi'r safleoedd hyn yn ffurfiol fel ACA a sicrhau bod unrhyw drefniadau rheoli addas yn eu lle. Fel yn achos dewis yACA ar gyfer eu cyflwyno, y Gweinidogion perthnasol sy'n penderfynu a ddylid dynodi ACA yn ddiweddarach. Er nad oes angen hynny gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd neu'r Gyfarwyddeb Adar, dylid nodi mai polisi'r Llywodraeth, pan fydd yr ymgynghoriad yn lansio, yw bod yr ACA posibl a'r AGA arfaethedig yn cael eu trin a'u rheoli fel petaent eisoes wedi'u dynodi.
Mae'r broses ddynodi ffurfiol i AGA yn symlach: yng ngoleuni canlyniadau'r ymgynghoriad, mae'r Gweinidog perthnasol (neu Weinidogion yn achos safleoedd sy'n gorwedd yn awdurdodaeth mwy nag un Gweiniodog) yn penderfynu a ddylid dosbarthu'r (dynodi'r) safle'n ffurfiol. Caiff y Comisiwn Ewropeaidd ei hysbysu ar ôl i'r safle gael ei ddosbarthu.

**Dychwelyd i'r brig**

## H. Y tu hwnt i'r ymgynghoriad

43. **Beth yw'r amserlen i'r safleoedd ar ôl yr ymgynghoriad?**
Bydd yr hyn sy'n digwydd ar ôl yr ymgynghoriad a phryd yn dibynnu ar yr ymatebion a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Os mai mân newidiadau neu addasiadau yn unig sydd eu hangen ar y safleoedd arfaethedig, neu ddim o gwbl, dylai'r amserlen symud ymlaen yn gyflym ac, yn amodol ar gytundeb Gweinidogion, byddem yn disgwyl gweld bod y safleoedd ACA yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r UE fel yACA, a'r AGA i'w dynodi'n ffurfiol, erbyn haf 2016. Os derbynnir ymatebion sylweddol neu wrthwynebiadau gwyddonol, mae'n bosibl y bydd angen mwy o amser er mwyn ymateb yn effeithiol i'r ymgyngoreion, prosesu unrhyw wybodaeth newydd a gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan argymhellion y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol i Lywodraethau.

44. **Sut gaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried?**
Yn ystod yr ymgynghoriad ac yn dilyn hynny, caiff ymatebion eu hystyried yn ofalus a bydd ymateb iddynt fel bo'n briodol. Caiff canlyniadau'r broses hon eu cyflwyno mewn adroddiad a fydd ar gael i'r cyhoedd, ac a fydd yn crynhoi os y gellid/dylid gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion safle yn ngoleuni'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Bydd ystyriaethau cymdeithasol-economaidd yn cael eu hystyried wrth adolygu'r Sylfaen Dystiolaeth Asesiad Effaith ond ni ellir eu hystyried yn yr argymhellion safle gan bod deddfwriaeth yn mynnu bod y safleoedd a'r ffiniau'n seiliedig ar dystiolaeth wyddonol berthnasol yn unig. Caiff trefniadau rheoli safle eu datblygu gan roi ystyriaeth i ffactorau cymdeithasol-economaidd, ond y nod cyffredinol yw sicrhau bod safleoedd yn bodloni'r amcanion cadwraeth ac felly'n ateb eu diben.

45. **Pryd fydd y penderfyniad ynghylch dynodi ai pheidio yn debygol o gael ei wneud?**
Bydd Gweinidogion yn penderfynu a ddylid cyflwyno'r safleoedd ACA yn ffurfiol i'r UE fel yACA ac a ddylid dosbarthu'r AGA yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, gan ystyried unrhyw gyflwyniadau gwyddonol perthnasol a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae'n bosibl i nifer a natur yr ymatebion i'r ymgynghoriad effeithio ar yr amserlen ar gyfer camau pellach tuag at ddynodiad.

46. **Ydy'r safleoedd yn cael eu gwarchod yn ffurfiol yn barod?**
Ydynt. Ar adeg ymgynghoriad ffurfiol, polisi'r Llywodraeth yn holl rannau'r DU yw bod ACA posibl ac AGA arfaethedig yn cael eu trin fel rhai dynodedig yn nhermau penderfyniadau rheoli ac asesiad gweithgareddau newydd. Os yw Gweinidogion yn penderfynu cyflwyno'r safleoedd ACA i'r UE fel ymgeisydd ACA, byddant ar yr adeg honno yn derbyn gwarchodaeth gyfreithiol dan y Rheoliadau amrywiol sy'n trawsosod y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Daw AGA yn destun gwarchodaeth gyfreithiol unwaith eu bod wedi'u dosbarthu (dynodi) gan Weinidogion.

47. **A fydd yr ACA llamhidyddion yr harbwr yn ddigonol i fodloni rhwymedigaethau?**
Mae darpariaethau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn mynnu bod Aelod Wladwriaethau'r UE yn cyflwyno ystod o fesurau, gan gynnwys:

- Cynnal neu adfer cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig Ewropeaidd a restrir yn Atodiadau ar statws cadwraeth ffafriol fel y'i diffinir yn Erthyglau 1 a 2;
- Cyfrannu at rwydwaith ecolegol Ewropeaidd gydlynol o safleoedd gwarchodedig trwy ddynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) i gynefinoedd a restrir yn Atodiad I ac i'r rhywogaethau a restrir yn Atodiad II.
- Sicrhau bod y mesurau cadwraeth angenrheidiol yn eu lle i reoli ACA yn briodol a sicrhau bod cynlluniau a phrosiectau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar hygrededd yr ACA yn cael eu hasesu'n briodol.
- Adrodd ar brosesau gweithredu'r Gyfarwyddeb bob chwe mlynedd (Erthygl 17), gan gynnwys asesiad o statws cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd a restri ar Atodiadau'r Gyfarwyddeb.

Gwybodaeth bellach ar y Gyfarwyddeb Cynefinoedd: http://jncc.defra.gov.uk/page-1374

Disgwylir y bydd dynodi a rheoli'r ACA a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn cyflawni rhwymedigaethau Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr mewn perthynas ag ACA ar gyfer gwarchod llamhidyddion yr harbwr.

48. **A fydd yr AGA morol yn ddigonol i fodloni rhwymedigaethau?**
Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn nodi bod yn rhaid i Aelod Wladwriaethau'r UE gyflwyno ystod o fesurau, gan gynnwys:

- Cymryd mesurau i gynnal pobogaethau rhywogaethau adar gwyllt ar lefel sy'n cyfateb i ofynion ecolegol, gwyddonol a diwylliannol, tra'n ystyried gofynion economaidd a hamdden;
- Cymryd mesurau i gadw, cynnal neu ail-sefydlu cynefinoedd i adar gwyllt sy'n ddigonol o ran amrywiaeth a maint;
- Dosbarthu'r tiriogaethau mwyaf addas o ran rhif a maint fel AGA ar gyfer gwarchod y rhywogaethau adar a restrir yn Atodiad I y Gyfarwyddeb, a rhywogaethau mudol a welir yn rheolaidd;
- Mewn perthynas ag AGA, cymryd camau priodol i sicrhau nad yw cynefinoedd yn cael eu llygru na'n dirywio, ac osgoi unrhyw aflonyddwch sylweddol ar yr adar y cafodd yr AGA eu dynodi ar eu cyfer;
- Adrodd yn rheolaidd ar brosesau gweithredu'r Gyfarwyddeb Adar.

Ymhellach, dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, mae gofyn i aelod wladwriaethau sicrhau bod AGA yn cael eu rheoli'n briodol, yn ogystal ag ACA.

Mae digonolrwydd rhwydwaith AGA y DU yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys mewn perthynas â safleoedd daearol a rhai safleoedd aberol, dan adolygiad parhaus. Fodd bynnag, yn seiliedig ar dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, disgwylir y bydd dynodi a rheoli'r AGA a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd, yn ogystal â'r newidiadau dan ystyriaeth ar gyfer AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl (gweler http://publications.naturalengland.org.uk/publication/5118471743471616), yn cyflawni rhwymedigaethau Cymru i raddau helaeth mewn perthynas ag AGA morol.

[Dychwelyd i'r brig](#)

## I. Rheoli ACA ac AGA dynodedig

49. **Beth yw amcanion cadwraeth y safleoedd? Yr amcan cyffredinol ar gyfer yr ACA** arfaethedig i lamhidyddion yr harbwr, fel y'i nodwyd yn y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol ar gyfer dynodi a rheoli ACA, yw cynnal poblogaethau llamhidyddion yr harbwr a'u cynefinoedd mewn statws cadwraeth ffafriol. Ystyrir bod lamhdyddion yr harbwr ar hyn o bryd mewn statws cadwraeth ffafriol, felly yr amcanion cadwraeth fydd cynnal y statws hwn trwy reoli gweithgareddau a ffactorau ar lefel safle allai effeithio ar lamhidyddion yr harbwr, er mwyn sicrhau nad yw pwysau yn effeithio'n andwyol ar y poblogaethau ehangach. Mae manylion pellach am yr amcanion cadwraeth i'w gweld yn y dogfennau Amcanion Cadwraeth a Chyngor ar Weithgareddau drafft a ddarperir fel gwybodaeth ategol i'r ymgynghoriad www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k.

    I AGA, yr amcan cyffredinol, fel y'i nodwyd yn y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol ar gyfer dynodi a rheoli AGA, yw cynnal y poblogaethau a'u cynefinoedd ar lefelau sy'n cyfateb i ofynion ecolegol, gwyddonol a diwylliannol. Yn achos AGA arfaethedig Anglesey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn ac AGA arfaethedig Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro, mae amcanion cadwraeth eisoes yn bodoli i'r safleoedd nythfeydd bridio a bydd yr rhain yn gymwys fel ag y maent, heb newid sylweddol (heblaw am ardal y dynodiad) ar draws yr estyniadau tua'r môr. Mae AGA arfaethedig Northern Cardigan Bay / Gogledd Bae Ceredigion yn safle newydd ac nid oes amcanion cadwraeth ffurfiol wedi'u sefydlu ar ei gyfer hyd yma. Mae amcanion drafft i'r tri safle ar gael ar wefan CNC: www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k.

50. **Pwy sy'n gyfrifol am reoli ACA ac AGA?**
    Nid oes un sefydliad penodol yn gyfrifol am reoli AGA ac ACAmorol. Mae'r holl awdurdodau sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am gynllunio a rheoleiddio gweithgareddau morol (e.e. Y Sefydliad Rheoli Morol, Awdurdodau Gwarchod Pysgodfeydd ar hyd y Glannau, Llywodraeth Cymru) yn yr amgylchedd morol ac arfordirol yn gyfrifol am sicrhau nad yw gweithgareddau morol yn effeithio'n andwyol ar nodweddion y safleoedd (yn yr achos hwn, llamhidyddion yr harbwr ac adar môr).

51. **Sut fydd y safleoedd yn cael eu rheoli?**
    Mae llamhidyddion yr harbwr eisoes yn cael eu gwarchod lle bynnag y byddant yn nyfroedd y DU dan gyfraith Ewropaidd a'r DU, ac felly angen mesurau rheoli priodol. Mae'r rhywogaeth i'w chanfod drwy ddyfroedd y DU, ond mae'r ACA arfaethedig newydd yn cynrychioli ardaloedd sy'n ymddangos fel petaent yn arbennig o bwysig i'r rhywogaeth. Yn yr un modd, mae rhywogaethau adar y sawl AGA arfaethedig i'w canfod yn eang yn nyfroedd y DU, ond mae'r AGA arfaethedig (neu estyniadau i AGA presennol) yn cynrychioli ardaloedd o bwysigrwydd arbennig, naill ai yn ystod y tymor bridio neu fel ardaloedd i aeafu ynddynt. Bydd dynodi ACA ac AGA yn sicrhau bod datyblygiadau arfordirol neu forol newydd yn cael eu hasesu am eu goblygiadau posibl i'r rhywogaethau a'r cynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt. Byddai gweithgareddau sydd eisoes mewn bodolaeth hefyd yn cael eu hasesu er mwyn sicrhau nad yw'r gweithgaredd yn amharu'n amhriodol ar ddefnydd y safleoedd gan lamhidyddion yr harbwr neu adar, nac yn effeithio ar y poblogaethau ehangach. Efallai y bydd angen rhyw lefel o reolaeth pellach yn, neu gerllaw'r safleoedd er mwyn lleihau neu ddileu effeithiau negyddol, os yn bresennol.

Mae canllawiau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd er mwyn egluro beth all hyn ei olygu i weithgareddau sy'n digwydd ar hyn o bryd a gweithgareddau yn y dyfodol. Bydd y rhan fwyaf o reolaeth yn digwydd fesul safle, ac ar sail achos. Caiff y cyngor rheoli generig i ACA llamhidyddion yr harbwr gan y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol ei ddisgrifio yn y papurau perthnasol i bob safle ar Amcanion Cadwraeth a Chyngor ar Weithgareddau drafft, ar gael ar dudalen yr ymgynghoriad ar wefan CNC: www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k.

52. **Sut mae safleoedd trawsffiniol yn cael eu trin?**
Mae safleoedd sy'n croesi ffiniau rhwng wahanol awdurdodaethau cenedlaethol o fewn dyfroedd y DU yn gyfrifoldeb ar y cyd i'r llywodraethau a'r asiantaethau, a fydd yn parhau i arfer swyddogaethau statudol o fewn eu hardaloedd awdurdodaeth perthnasol. I'r safleoedd trawsffiniol hyn, mae'r asiantaethau perthnasol yn cydweithio'n agos i gydlynu'r broses ymgynghori, a byddant yn parhau i gydweithio'n agos wrth gynghori ar, a chefnogi unrhyw waith rheoli safle sydd ei angen, gan gynnwys asesu cynlluniau a phrosiectau. Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau penodol ynghylch y trefniadau ar gyfer safle arbennig at unrhyw un o'r asiantaethau dan sylw yn y lle cyntaf. Bydd yr asiantaethau perthnasol yn cydweithio er mwyn darparu cyngor ar y safleoedd y maent yn ymwneud â nhw.

53. **A fydd y safleoedd newydd yn effeithio ar unrhyw weithgareddau cyfredol?**
Ni fwriedir i ACA ac AGA roi diwedd ar weithgareddau na dod yn ardaloedd gwaharddedig. Fe'u bwriedir i ddynodi ardaloedd lle bydd angen rheoli gweithgareddau allai effeithio ar y nodwedd(ion) dynodedig er mwyn cyflawni amcanion cadwraethol y safle. Mae'r ACA ac AGA presennol a ddynodwyd ar gyfer ystod o gynefinoedd a rhywogaethau yn ardaloedd morol gweithredol a chanddynt amrywiaeth o wahanol ddefnyddiau, gan gynnwys llongau, ynni, pysgodfeydd a gweithgareddau hamdden. Efallai bod angen rheoleiddio ychwanegol ar rai gweithgareddau a datblygiadau sy'n gallu effeithio ar nodweddion dynodedig, fodd bynnag mae llawer o weithgareddau morol ac arfordirol yn cydfodoli â chadwraeth mamolion ac adar morol. Ni ddylai dynodi ACA ac AGA arfaethedig effeithio'n sylweddol ar reoli a rheoleiddio gweithgareddau cyfredol os dangosir nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar y rhywogaethau y dynodwyd y safleoedd ar eu cyfer. Bydd cyfleoedd pellach yn y dyfodol i drafod y rheolaeth ar unrhyw safleoedd dynodedig.
Ystyrir bod poblogaethau adar y dair AGA arfaethedig mewn cyflwr iach gan amlaf, gyda niferoedd y boblogaeth yn gyffredinol sefydlog neu'n cynyddu dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Ni ystyrir bod gweithgareddau parhaus fel pysgota, llongau a hamdden yn effeithio'n sylweddol ar y poblogaethau. Felly, oni ddaw tystiolaeth newydd i'r amlwg sy'n profi bod ein defnyddiau presennol o'r amgylchedd morol yn effeithio'n andwyol ar y rhywogaethau adar hyn, mae'n debygol y bydd gweithgareddau parhaus yn gallu parhau ar eu lefelau cyfredol heb fod angen mesurau rheoli newydd. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r poblogaethau adar dan sylw eisoes yn destun gwarchodaeth dan y dynodiadau AGA presennol ar arfordir Ynys Môn ac ynysoedd Sir Benfro. Mae'r ardal bwysig ar gyfer gaeafu trochyddion gyddfgoch yng Ngogledd Bae Ceredigion yn gorwedd gan mwyaf o fewn ffin ACA bresennol Pen Llŷn a'r Sarnau, sydd eisoes yn cael ei rheoli ar gyfer cadwraeth amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau. Golyga hyn fod yr ardaloedd eisoes yn destun amrywiaeth o reoliadau a gynlluniwyd i ddiogelu bywyd gwyllt morol, felly mae'n annhebygol y bydd gofyn rheoleiddio newydd sylweddol ar weithgareddau presennol.

54. **Sut fydd unrhyw weithgareddau newydd yn cael eu heffeithio?**
Nid yw presenoldeb AGA neu ACA yn atal gweithgareddau newydd, datblygiad na newid o reidrwydd. Fodd bynnag, mae yna weithdrefn statudol y mae'n rhaid ei dilyn wrth ystyried cynlluniau neu brosiectau a allai effeithio ar AGA ac ACA, ni waeth a ydy'r cynigion y tu mewn i'r safle neu'r tu hwnt i'r ffin. Mae'r broses asesu statudol (a elwir yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) yn cynnwys y camau canlynol:

- Os yw cynnig yn debygol o effeithio'n sylweddol ar nodweddion (rhywogaethau neu gynefinoedd) ACA neu AGA, yna rhaid i'r awdurdod cymwys (h.y. yr awdurdod sy'n gyfrifol

am benderfynu a ddylai cynnig symud yn ei flaen) gynnal asesiad priodol i ganfod a fydd y cynnig yn effeithio'n andwyol ar hygrededd y safle.

- Os dangosir na fyddai'r cynnig yn achosi effaith andwyol ar y safle, caniateir bwrw ymlaen â'r cynnig (cyn belled â'i fod, wrth gwrs, yn cydymffurfio â deddfwriath arall berthnasol).
- Os na ellir dangos na fyddai'r cynnig yn achosi effaith andwyol, efallai y bydd angen addasu'r cynnig er mwyn ei symud yn ei flaen, neu fel arfer y bydd caniatâd yn cael ei wrthod.
- Os dangosir y gallai cynnig achosi effaith andwyol, ond nad oes unrhyw atebion eraill, efallai y caniateir bwrw ymlaen â'r cynnig, ond dim ond os oes rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig. Ymhellach, mae'n rhaid cymryd mesurau cydadferol (o natur ecolegol).

Mae'r gofynion hyn eisoes yn berthnasol i unrhyw ddatblygiadau o fewn, neu yn effeithio ar ACA neu AGA presennol.

55. **Pa weithgareddau fydd yn cael eu rheoli?**
Nid yw'r gweithgareddau rheoli wedi'u trefnu'n llawn eto, gan bod angen dynodi'r safleoedd a choladu gwybodaeth ynghylch gweithgaredd presennol er mwyn hysbysu'r angen ar gyfer rheoli. Hefyd, cyfrifoldeb y cyrff rheoleiddiol perthnasol yw rheolaeth y rhan fwyaf o weithgareddau morol, yn hytrach na'r Cyrff Cadwraeth Natur Statudol. Fodd bynnag, mae'r mathau o weithgareddau all fod angen eu rheoli yn debygol o rai sy'n ganlyniad i bwysau sy'n effeithio ar lamhidyddion yr harbwr neu adar.  Yn achos llamhidyddion yr harbwr, mae ystyriaeth ddechreuol ar rai o'r gweithgareddau sy'n effeithio ar y rhywogaeth a rheolaeth bosibl allai fod yn angenrheidiol, i'w cael yn y dogfennau Amcanion Cadwraeth a Chyngor ar Weithgareddau, sydd ar gael ar wefan ymgynghori CNC www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k

**Dychwelyd i'r brig**


## J. Sut i gael gwybod rhagor

**Os nad yw eich cwestiwn yn y rhestr uchod, neu os hoffech ragor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu ag un o'r canlynol:**

Os yw eich cwestiwn yn bennaf gysylltiedig ag ACA posibl ar hyd y glannau/alltraeth yn Lloegr neu ar hyd y glannau/alltraeth yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'r Tîm Cyngor Rhywogaethau Morol yn y Cydbwyllgor Gwarchod Natur (JNCC):  porpoise@jncc.gov.uk Ffôn: 01733 562626.

Os yw eich cwestiwn yn bennaf gysylltiedig ag AGA arfaethedig mewn dyfroedd alltraeth, cysylltwch â seabirds@jncc.gov.uk.

Os yw eich cwestiwn yn bennaf gysylltiedig ag ACA neu AGA arfaethedig ar hyd y glannau/alltraeth yn nyfroedd Cymru, cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC): morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Ffôn: 0300 065 3000.


Lleoliad safleoedd ACA ac AGA arfaethedig Ionawr 2016
Location of proposed SACs and SPAs January 2016
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig
Potential Special Protection Areas
1 Anglesey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn
2 Northern Cardigan Bay / Gogledd Bae Ceredigion
3 Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Benfro
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dan ystyriaeth
Possible Special Areas of Conservation
A North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol
B West Wales Marine / Cymru Gollewin Forol
C Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren
A
B
C
1
2
3
12 nm
12 nm
12 nm
0 10 20 40
Nm
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100019741
© Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100019741